# 12. CYNNYRCH LLEOL A BUSNESAU GWLEDIG

## Ffeithiau Allweddol

| |
|---|
| Roedd lefelau diweithdra yn is yn yr AHNE nag ar gyfer Gwynedd a Chymr |
| Roedd lefelau hunangyflogaeth yn sylweddol uwch na'r lefel yng Ngwynedd Chymru. |
| Roedd swyddi mewn amaethyddiaeth a choedwigaeth yn cyfrif am ychydig dros 8% o gyfanswm cyflogaeth, tra bod y sector twristiaeth yn cyfrif am ychydig dros 17%. |
| Roedd gwariant ymwelwyr yn yr AHNE wedi cynyddu 5% ers 2006 |
| Bu gostyngiad yn nifer yr ymwelwyr i'r AHNE o 17%. |
| Bu gostyngiad yn y nifer o ymwelwyr dydd. |
| Roedd gostyngiad mewn ymwelwyr yn aros mewn llety gwasanaethol. |
| Roedd gostyngiad o 12% yn y bobol a gyflogir yn y sector dwristiaeth ers 2006 |

(Ffigyrau 2011 wedi eu haddasu ar gyfer ardal yr AHNE)

## 12.1 Cyflwyniad

12.1.1 Mae gweithgareddau economaidd yn yr AHNE a'r ardal gerllaw yn bwysig oherwydd eu dylanwad uniongyrchol ar rinweddau arbennig ardal – er gwell ac er gwaeth. Yn ogystal, mae gweithgareddau economaidd yn creu cynnyrch, cynnal sgiliau a chreu swyddi ac felly yn cynnal y gymdeithas leol. Pan fo diffyg cyfleon cyflogaeth digonol a/neu gyflogau isel bydd cynnydd yn y nifer o bobl yn gadael yr ardal i chwilio am waith. Fel sy'n gyffredin i ardaloedd gwledig eraill o Gymru wledig mae llawer o bobl ifanc yn gadael yr ardal. Mae colli aelodau o gymdeithas, yn cynnwys aelodau wedi eu haddysgu yn dda, yn tlodi cymdeithas.

12.1.2 Mae'r economi yn Llŷn yn gymharol wan gyda lefelau Cynnyrch Mewnwladol Crynswth (CMC) y pen a gweithgarwch economaidd yn llawer yn is na'r cyfartaledd Prydeinig ac Ewropeaidd. Nid oes ystod eang o gyfleon gwaith yn yr ardal ac yn gyffredinol mae lefel cyflogau'n isel. Caiff hyn ei adlewyrchu mewn cymdeithas sydd yn dlotach o ran enillion a lefelau uwch o amddifadedd. Mae'r ffaith fod angen teithio at wasanaethau a chyfleusterau hefyd yn cyfrannu at dlodi ac amddifadedd.

12.1.3 Mae cryn ddibyniaeth ar ddiwydiannau traddodiadol, diwydiannau gwasanaeth a gweinyddu ac nid oes cwmnïau a gweithfeydd mawr yn Llŷn. Mae'r cyfleon gwaith yn yr ardaloedd gwledig yn gyfyngedig iawn a llawer yn teithio i ganolfannau megis Pwllheli, Caernarfon a Bangor am waith, gwasanaethau a nwyddau.

12.1.4 At bwrpas yr adolygiad o'r Cynllun Rheoli derbyniwyd gwybodaeth am faterion economaidd a chymdeithasol drwy ymchwil gan gwmni Land Use Consultants. Casglwyd y wybodaeth o Gyfrifiad 2011 yn ogystal â gwybodaeth twristiaeth STEAM. Lle'r oedd hynny'n bosibl fe

gynhwyswyd gwybodaeth ar lefel Gwynedd a Chymru gyfan er mwyn cymharu.

12.1.5 Dengys canlyniadau Cyfrifiad 2011 fod cynnydd wedi bod yn y gyfran o'r boblogaeth oed gweithio sy'n economaidd weithredol ar draws AHNE Llŷn. Yng nghyfrifiad 2001, roedd y nifer o bobl sy'n economaidd weithredol yn is na Gwynedd a Chymru, ond mae hyn wedi newid bellach. Yr adran ddwyreiniol o'r AHNE sydd wedi dangos y cynnydd mwyaf, gyda'r chynnydd o 11.9% yn y gyfran o bobl sy'n economaidd weithredol. Gweler Ffigwr 5.6 yn yr Adroddiad ar Gyflwr yr AHNE (2014).

12.1.6 Yn ogystal â gostyngiad yn y gyfran o bobl oedd yn ddi-waith, mae ychydig o newid wedi bod yng nghyfansoddiad y boblogaeth sy'n ddi-waith ers 2001. Gwelwyd gostyngiad yn y rhai oedd y wael/ anabl hir-dymor a chynnydd bychan yn y rhai oedd yn edrych ar ôl cartref neu aelod o'r teulu. Pobl wedi ymddeol yw'r mwyafrif o boblogaeth y bobl mewn oed gwaith sydd yn economaidd anweithredol a gwelwyd cynnydd yn y sector yma. Gweler Ffigwr 5.7 yn yr Adroddiad ar Gyflwr yr AHNE (2014).

12.1.7 Dengys yr Adroddiad ar Gyflwr yr AHNE hefyd fod lefelau llai o ddiweithdra tymor hir a thymor byr na lefelau Cymru ac fod lefelau hunangyflogaeth yn yr AHNE yn uwch na Gwynedd a Chymru.

12.1.8 Mae cael economi (ac yn fwy penodol gweithgarwch economaidd) wedi ei wreiddio'n lleol yn bwysig er mwyn rheoli ansawdd yr AHNE (mae angen iddynt fod yn dirluniau byw a chynaliadwy). Gellir mesur i ba raddau mae'r economi wedi ei gwreiddio yn lleol trwy ystyried ffactorau megis:

- Cyfran gwariant y trigolion sy'n mynd ar brynu nwyddau a gwasanaethau yn lleol (a ddehonglir fel arfer yn nhermau'r lluosydd economaidd );
- Cyfran y gweithwyr sy'n lleol (gweler patrwm teithio i'r gwaith);
- Cyfran y perchnogion sy'n byw'n lleol;

12.1.9 Yn ogystal, lle bo'r amgylchedd o safon uchel y mae gan ardal y potensial i ddenu ymwelwyr a bydd eu gwariant hwy hefyd yn bwysig.

12.1.10 At bwrpas Cynllun Rheoli yr AHNE fe osodwyd yr isod fel Prif Nod o ran Cynnyrch a Sgiliau:

### Prif Nod

**HYRWYDDO A CHEFNOGI GWEITHGAREDDAU ECONOMAIDD ADDAS FYDD YN DOD A BUDD I'R CYMUNEDAU LLEOL AR YR AMOD NA FYDDENT YN AMHARU AR AMGYLCHEDD NATURIOL YR ARDAL.**

## Nodweddion Arbennig

### 12.2 Amaeth

12.2.1 Mae amaethu wedi bod ar diroedd Llŷn ers canrifoedd lawer. Mae'n debyg mai tir coediog oedd y penrhyn yn wreiddiol, ac eithrio'r tiroedd uchel, ond yn sgil amaethu fe dorrwyd llawer o'r coed a chrëwyd terfynau i reoli tir a stoc. Dros y canrifoedd codwyd terfynau mwy cadarn i reoli'r tiroedd, - waliau cerrig sychion neu gloddiau. Mewn rhai mannau plannwyd coed drain hefyd i greu gwrychoedd. Roedd y caeau cynnar hyn yn eithaf bychan – llawer yn gysylltiedig gyda bythynnod neu ffermydd. Mae'r patrwm caeau hanesyddol i'w weld yn glir mewn rhai ardaloedd fel Rhiw ac Uwchmynydd a'r ffiniau yn bwysig o ran edrychiad y tirlun, hanes, diwylliant a bywyd gwyllt.

12.2.2 Yn draddodiadol ffermydd cymysg oedd yn Llŷn yn magu anifeiliaid amrywiol, tyfu cnydau a chadw ieir neu wyddau ayb. Roedd llawer yn cynhyrchu llaeth hefyd ac yn sgil hynny a sefydlwyd Hufenfa De Arfon yn ôl yn 1938i brosesu'r cynnyrch, mae'r Hufenfa yn parhau'n weithredol hyd heddiw ac yn gyflogwr pwysig yn yr ardal. Yn sgil uno â'r Farchnad Gyffredin yn 1973 daeth mwy o bwyslais ar gynhyrchu cynnyrch unigol a gwelwyd tueddiad i arbenigo mewn un math o ffermio – mae'r tueddiad hyn wedi parhau hyd at y presennol.

12.2.3 Dechreuwyd rhoi mwy o bwyslais ar faterion amgylcheddol o ddiwedd yr 1980au ymlaen a gwelwyd sefydlu cynlluniau grant amaeth amgylchedd fel yr Ardal Amgylchedd Arbennig (ESA), Tir Gofal a Thir Cymen. Erbyn hyn mae cynllun Glastir yn weithredol dros Gymru gyfan ac yn seiliedig ar warchod a chynnal cynefinoedd, bioamrywiaeth a nodweddion hanesyddol.

12.2.4 Mae cyfran helaeth o Llŷn yn dir amaethyddol da ac mae safon y stoc yn gyffredinol uchel. Mae'r ardal yn cynhyrchu cynnyrch amaethyddol o safon uchel – yn cynnwys cig oen, cig eidion, llaeth a chig moch. Mae cyfran i'r cynnyrch yma yn cael ei werthu yn lleol trwy werthu yn uniongyrchol neu trwy gyflenwi siopau bychan ond mae llawer iawn yn gadael yr ardal hefyd. Nid oes llawer o gynhyrchu llysiau, ffrwythau a chigoedd mwy prin e.e. carw yma ac mae'n ymddangos fod cyfle i gynhyrchu cynnyrch amaethyddol mwy amrywiol yn yr ardal yn ogystal â defnyddio mwy o gynnyrch yn lleol. Gallai hynny gynnig buddion economaidd ac amgylcheddol.

12.2.5 Er mwyn parhau yn hyfyw ac amserol bydd raid i ffermydd addasu – bydd hynny yn cynnwys datblygiadau newydd i wella effeithlonrwydd, addasu ar gyfer peiriannau newydd ayb. Mewn rhai achosion bydd angen adeiladau a strwythurau newydd a dylid rhoi sylw manwl yn yr AHNE i geisio sicrhau fod y rhain yn ymdoddi i'r tirlun trwy fesurau megis lleoliad addas, maint, deunyddiau, lliwiau a thirlunio.

12.2.6 Mae Amaethyddiaeth yn parhau i fod yn gyflogwr pwysig yn yr ardal er fod yr Adroddiad o Gyflwr yr AHNE (2014) yn dangos fod cyflogaeth mewn amaethyddiaeth a choedwigaeth wedi gostwng. Mae'r gymhariaeth o

gyflogaeth ym mhob sector yn dangos fod amaeth a choedwigaeth yn darparu 8.5 % o gyflogaeth (o gyfrifiad 2011) tra mae swyddi yn ymwneud â thwristiaeth yn 17.5% o gyflogaeth (o STEAM 2012).

12.2.7 Yn ogystal â chreu gwaith i amaethwyr a chynnal teuluoedd cefn gwlad mae'r diwydiant amaethyddol yn creu gwaith yn uniongyrchol i eraill – gweision a chontractwyr. Hefyd mae'r diwydiant yn cynnal llawer o fusnesau a swyddi cysylltiol eraill fel rhai sy'n cyflenwi'r diwydiant efo bwydydd anifeiliaid, offer ffensio, giatiau, peiriannau ayb. Yn ogystal, mae angen cynnal adeiladau presennol a chodi adeiladau newydd yn gyson felly darperir gwaith i adeiladwyr a chrefftwyr.

12.2.8 Mae ffermwyr a'u teuluoedd hefyd yn gwneud cyfraniad amhrisiadwy i gynnal hanes, diwylliant ac arferion cefn gwlad. Mae'n gymuned Gymraeg a Chymreig sydd yn cynnal arferion cefn gwlad, hanesion lleol, enwau caeau ac ardaloedd, tai fferm ac adeiladau hanesyddol, ffynhonnau. Mae sgiliau amaethyddol fel codi a chynnal waliau cerrig, cloddiau a rheoli tir yn bwysig iawn o ran amgylchedd yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.

12.2.9 Maes arall lle mae amaethyddiaeth yn gwneud cyfraniad i'r AHNE yw trwy fentrau arallgyfeirio - creu incwm, cyflog ac ychwanegu gwerth ac adnodd ymwelwyr. Oherwydd y gwasgu ariannol a chefnogaeth y Llywodraeth mae nifer o ffermwyr yn Llŷn wedi arallgyfeirio i ddod ac incwm ychwanegol i'w busnesau. Y mentrau mwyaf cyffredin yw carafanau, addasu adeiladau allanol yn llety gwyliau a gweithgareddau awyr agored. Mae cynlluniau arallgyfeirio amaethyddol o gymorth i gynnal unedau fferm a chymunedau lleol a chynnal yr economi lleol ond mae angen gofal i reoli cynlluniau allai amharu ar rinweddau arbennig yr AHNE e.e. carafanau mewn mannau amlwg, gweithgareddau swnllyd neu addasiadau i adeiladau amaethyddol traddodiadol.

## 12.3 Coedwigaeth

12.3.1 Yn ystod y 1950au a'r 1960au roedd y Llywodraeth yn awyddus i gynhyrchu mwy o goed ym Mhrydain er mwyn bod yn fwy hunangynhaliol. Plannwyd llawer o goedlannau pinwydd ar diroedd uchel a thiroedd eraill o ansawdd isel yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Mae rhai o'r coedwigoedd pinwydd yn AHNE Llŷn sef ar Garn Fawr, Moel Penllechog, Nant Gwrtheyrn, ochrau Garn Boduan, Garn Fadrun, ardal y Rhiw a Glasfryn. Er nad yw coed pinwydd yn gynhenid i'r ardal maent wedi dod yn rhan o edrychiad y tirlun ac mae effaith weledol sylweddol pan mae'r coedwigoedd hyn yn cael eu torri a'r broses o ailblannu yn dechrau oherwydd bod hyn yn gadael y tirlun yn foel ac agored.

12.3.2 Ychydig o goedwigoedd cynhenid sydd yn yr AHNE ond maent yn ffurfio elfen bwysig o'r tirlun a'r amgylchedd naturiol. O ddiddordeb arbennig mae'r goedlan hynafol yn y Rhiw a choedlannau Cwm Gwared a Choed Elernion. Mae'r coedlannau hyn wedi ei gwarchod gyda Gorchmynion Diogelu Coed yn ogystal â bod yn Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.

12.3.3 O ran gwaith, ychydig mae'r coedwigoedd pinwydd yn ei ddarparu ac eithrio Glasfryn ger Llanaelhaearn sydd ychydig oddi allan i'r AHNE. Sefydlwyd Melin Goed a Chanolfan Ffensio Glasfryn yng nghanol yr 1990au ac mae'n cynhyrchu stanciau ffensio, giatiau, byrddau, meinciau, ffensys, coed tân ayb. Mae nifer o bobol leol yn gweithio yno.

## 12.4 Pysgota

12.4.1 Mae pysgota wedi bod yn weithgaredd pwysig yn Llŷn ar hyd y canrifoedd. Roedd dibyniaeth ar y cynnyrch morol fel ffynhonnell fwyd a hefyd fel rhywbeth i'w fasnachu. Yn ôl yr hanes roedd helfeydd mawr o rai pysgod yn y gorffennol – yn arbennig penwaig yn ardal Nefyn. Yn aml roedd y pysgod yn cael eu halltu er mwyn eu cludo i'r marchnadoedd. Mae llawer o hanesion a llên gwerin ynghlwm â'r diwydiant pysgota a bod y pysgotwyr hwythau, fel y ffermwyr wedi cynnal hanes a diwylliant lleol dros y blynyddoedd.

12.4.2 Erbyn heddiw y prif gynnyrch môr yw draenogiaid y môr, mecryll, crancod, cimychiaid, corgimychiaid a chregyn ("whelks"). Nid oes ffigyrau diweddar wedi eu cyhoeddi ar y diwydiant pysgota yn yr ardal hon ond mae dal pysgod, crancod a chimychiaid yn parhau'n weithgaredd poblogaidd, yn bennaf fel ffynhonnell incwm eilradd er fod rhai pysgotwyr llawn amser yn parhau. Er fod rhai pysgod a physgod cregyn yn cael eu gwerthu yn lleol i unigolion a bwytai y tueddiad yw i werthu'r cynnyrch i gwmnïau sydd yn eu cludo o'r ardal i'w gwerthu ymlaen. Felly mae llawer o gynnyrch môr lleol safonol yn gadael yr ardal, ac yn cael eu gwerthu yn aml am brisiau gweddol isel.

12.4.3 Ymddengys fod potensial i brosesu a defnyddio mwy o gynnyrch môr lleol yn Llŷn ac fod cyfleon economaidd ac amgylcheddol ynghlwm â hynny. Un datblygiad yn y maes yma yw'r prosiect gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol gyda pysgotwyr cimychiaid a chrancod lleol i addasu beudai yng Nghwrt ger Aberdaron i ddatblygu cyfleusterau storio, oeri a prosesu cynnyrch môr gyda'r gobaith o gynyddu gwerth y cynnyrch..

## 12.5 Gwaith chwarel a chloddio mwyn

12.5.1 Bu chwarelydda a chloddio mwynau yn ddiwydiannau pwysig iawn yn Llŷn yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif. Bryd hynny roedd nifer o chwareli ithfaen ar ochrau'r bryniau igneaidd sy'n britho'r ardal – mannau fel Trefor, Nant Gwrtheyrn, Mynydd Nefyn a Thir y Cwmwd, Llanbedrog. Hefyd roedd cloddio mwynau yn ardal Llanengan a Bwlchtocyn (plwm yn bennaf) a manganîs yn ardal y Rhiw. Gellir darllen am y diwydiannau hyn mewn llyfrau hanes lleol.

12.5.2 Mae'r chwareli wedi cael effaith trawiadol ar dirlun a daeareg y penrhyn ond hefyd maent wedi darparu'r deunydd crai ar gyfer nifer helaeth o adeiladau

hanesyddol. Fe ellir dadlau fod cyfiawnhad i barhau i gynhyrchu rhyw gymaint o gerrig lleol er cynnal adeiladau ac er mwyn sicrhau fod adeiladau newydd mewn lleoliadau sensitif yn cyd-fynd ag adeiladau traddodiadol. Bellach dim ond dwy o'r chwareli ithfaen sy'n parhau i weithio yn yr Ardal Harddwch sef chwareli Trefor a Nanhoron. Cynhyrchu ar raddfa fechan ar gyfer y farchnad leol a wneir yn y ddwy chwarel felly maent yn darparu ar gyfer angen lleol ac yn cynnal rhai swyddi. Hefyd mae'r traddodiad o chwarelydda yn cael ei gynnal a rhai o'r hen sgiliau a thraddodiadau yn parhau.

12.5.3 Oherwydd sensitifrwydd yr AHNE, yr Arfordir Treftadaeth, bioamrywiaeth, olion archeolegol a'r effaith posibl pe byddai hen chwareli yn cael eu hailagor, bu i Gyngor Gwynedd osod Gorchymyn Gwahardd ar nifer o hen chwareli yn 2003.

## 12.6 Cwmnïau bach a hunangyflogaeth

12.6.1 Oherwydd natur wledig yr ardal mae traddodiad o fusnesau bach yn Llŷn. Mae llawer ohonynt yn cyflenwi anghenion aelwydydd neu fusnesau eraill yn arbennig amaethyddiaeth. Mae'r busnesau yma yn hollbwysig am eu bod yn cynnal unigolion a theuluoedd ac yn darparu ar gyfer anghenion y boblogaeth a busnesau eraill.

12.6.2 Mae hunangyflogaeth yn uchel yn yr ardal fel mae'r Adroddiad o Gyflwr yr AHNE 2014 yn ei gadarnhau. Mae'r sector yma yn cynnwys amaethwyr, contractwyr unigol, adeiladwyr a plymwyr, trydanwyr, seiri coed ayb. Eto mae'r bobol hyn yn darparu gwasanaeth i'r gymdeithas leol a rhai sydd yn berchen ar eiddo yn yr ardal yn ogystal â chynnal a chadw eiddo a thiroedd – yn cynnwys rhai adeiladau a strwythurau hanesyddol, cloddiau, waliau, llwybrau cefn gwlad ayb.

## 12.7 Mentrau Cydweithredol

12.7.1 Dros y blynyddoedd mae Llŷn ac Eifionydd wedi bod yn ardal lle gwelwyd nifer o fentrau cydweithredol yn sefydlu. Dyma enghraifft o gymuned yn cymryd camau i gynnal a darparu gwaith a gwasanaeth yn y gymuned pan nad yw cwmnïau neu unigolion yn gweld elw digonol o wneud hynny. Yr enghreifftiau amlycaf yn yr AHNE ei hun ydi Tafarn y Fic a Siop y Groes yn Llithfaen tra mae Hufenfa De Arfon ger Y Ffôr yn enghraifft pwysig sy'n darparu gwaith i lawer o ardal Llŷn.

## 12.8 Y Gwasanaethau Cyhoeddus

12.8.1 Mae nifer helaeth o boblogaeth yr ardal yn cael eu cyflogi yn y gwasanaethau cyhoeddus (awdurdod lleol, gwasanaeth iechyd, gwasanaeth tân ayb). Dros y blynyddoedd diweddar gwelwyd toriadau sylweddol mewn cyllidebau rhai o'r gwasanaethau hyn sydd wedi golygu llai o gyfleon swyddi yn lleol. Fodd bynnag, mae'r sector gyhoeddus yn parhau yn gyflogwr pwysig yn lleol ac mae'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu yn bwysig.

## 12.9 Twristiaeth

12.9.1 Mae'r diwydiant twristiaeth rhan bwysig o'r economi leol yn Llŷn, yn creu a chynnal swyddi ac yn cyfrannu at gynnal y cymunedau. Hefyd mae'r gwariant gan ymwelwyr yn hwb mawr i gynnal gwasanaethau a chyfleusterau lleol megis tafarndai, bwytai, caffis, gwestai, siopau a modurdai. Mae astudiaethau yn cadarnhau fod yr amgylchedd naturiol – y traethau, bryniau, llwybrau a bywyd gwyllt yw prif yn rhan fawr o atyniad yr ardal. Y sialens yw cael cydbwysedd rhwng elwa o'r diwydiant ac osgoi gor-ddatblygiad fyddai'n amharu ar rinweddau arbennig ardal.

12.9.2 Yn ddiweddar gwelwyd symudiad cynyddol o wyliau wythnos a phythefnos traddodiadol ym Mhrydain i wyliau byrrach – mae gwybodaeth yn dangos fod hyn yn wir am ardal Llŷn hefyd. Yn gyffredinol mae'r tueddiad hyn o fudd economaidd i'r ardal gan gynyddu'r galw am wneud defnydd o adnoddau hamdden naturiol yr ardal (y môr, llwybrau cyhoeddus, Llwybr yr Arfordir ayb) a hynny am gyfnod hirach o'r flwyddyn.

12.9.3 Dengys gwybodaeth fod y mwyafrif o ymwelwyr bellach yn aros yn mewn llety hunan ddarpar – llety, cartrefi gwyliau, carafanau neu wersylla. Mae darpariaeth dda o lety hunan-ddarpar yn Llŷn bellach - yn bennaf yn sgil adeiladau'n cael eu haddasu i lety gwyliau a chynnydd mewn niferoedd o garafanau. Ar y llaw arall mae gostyngiad sylweddol wedi bod mewn rhai sy'n aros mewn gwestai, gwely a brecwast a llety gwasanaethol arall ac yn sgil hynny mae gostyngiad yn y math hynny o sefydliadau (nifer o westai wedi eu dymchwel, a thai aros wedi eu troi yn dai preifat).

12.9.4 Yn y blynyddoedd diweddar mae Croeso Cymru wedi rhoi pwyslais ar weithgareddau awyr agored a diwylliant a hanes – gan y bydd hyn yn denu gwahanol fath o bobol ac yn ymestyn y tymor gwyliau. Mae gan Llŷn lawer i'w gynnig o ran y math yma o dwristiaeth ac mae'n fwy cynaliadwy ac yn fwy cydnaws â rhinweddau'r ardal. Eisoes mae'n bosib gwneud amrywiaeth o weithgareddau yma ac mae nifer o ganolfannau hanesyddol/ diwylliannol y gellir ymweld â nhw. Sefydlwyd Ecoamgueddfa yn 2014, y gyntaf i'w datblygu yng Nghymru. Mae'n gweithredu mewn partneriaeth gyda saith sefydliad treftadol, Nant Gwrtheyrn, Amgueddfa Forwrol Llŷn, Felin Uchaf, Porth y Swnt, Plas yn Rhiw, Plas Glyn y Weddw, a Phlas Heli. Mae'r gweithredu yn ddigidol drwy ddefnyddio technoleg newydd a chyfryngau cymdeithasol mewn ffordd arloesol. Nod yr Ecoamgueddfa yw creu cynnydd mewn twristiaeth ddiwylliannol a thymor gwyliau ehangach a chynaliadwy fydd yn dod â buddion economaidd i'r ardal yn ogystal â rhai cymdeithasol ac amgylcheddol.

12.9.5 Ond mae sgil-effeithiau i'r diwydiant twristiaeth. Mae gor-ddefnydd o lwybrau yn creu erydiad ac mae rhai gweithgareddau yn swnllyd neu'n creu gwrthdaro. Yn ystod y cyfnodau gwyliau prysur mae pwysedd sylweddol ar wasanaethau cyhoeddus a chymdeithasol cheir tagfeydd traffig yn Abersoch a Phwllheli. Hefyd mewn rhai ardaloedd mae carafanau yn amharu ar y tirlun a gall lefelau uchel o ail gartrefi effeithio ar yr iaith a'r diwylliant (rhoddir sylw i'r materion hyn mewn rhannau eraill o'r Cynllun).

12.9.6 Mae'r Adroddiad ar Gyflwr yr AHNE (2014) yn dadansoddi lefelau twristiaeth o fewn AHNE Llŷn, a chyfraniad y sector i'r economi leol yn sgil incwm a chyflogaeth. Rhaid pwysleisio mai amcangyfrifon a geir yn yr Adroddiad, yn seiliedig ar wybodaeth STEAM ar gyfer Gwynedd sydd wedi ei addasu ar gyfer yr AHNE.

12.9.7 Mae'r Adroddiad yn dangos fod gostyngiad yn nifer o ymwelwyr i'r AHNE gyda niferoedd wedi gostwng 17% ers 2006 i tua 320,000 yn 2011. Nifer yr ymwelwyr dydd sydd wedi gweld y gostyngiad mwyaf mewn niferoedd, er eu bod yn dal i gyfrif am dros hanner (52.7%) yr holl ymwelwyr i'r AHNE. Rhwng 2006 a 2011, amcangyfrifir fod cynnydd o £1.7 miliwn (5%) mewn gwariant ymwelwyr yn yr AHNE i gyfanswm o £35.8m. O edrych ar yr wybodaeth yn ôl sector mae lleihad mewn gwariant ar lety i'w weld. Roedd cynnydd ym mhob sector arall a'r cynnydd mwyaf yn y sector hamdden, ble gwelwyd cynnydd amcaniedig o 23% mewn incwm sy'n golygu fod 7.4% o wariant ymwelwyr yn yr AHNE yn cael ei wario ar hamddena.

12.9.8 Mae'r Adroddiad hefyd yn amcangyfrif lefelau cyflogaeth yn y sector dwristiaeth yn ardal yr AHNE. Yr amcangyfrif yw fod y nifer o bobl a gyflogir gan y sector wedi gostwng 12% rhwng 2006 a 2011. Nid yw'r gostyngiad hwn wedi bod yn gyson ar draws pob sector, gan fod rhai sectorau megis llety, siopa a bwyd a diod wedi gweld gostyngiad mwy na sector hamdden a thrafnidiaeth.

## 12.10 Hamdden

12.10.1 Mae cyfle i wneud llawer iawn o weithgareddau hamdden awyr agored yn Llŷn, yn sicr mae hyn yn rhan o apêl yr ardal i ymwelwyr. Yn ogystal â'r rhwydwaith eang o hawliau tramwy cyhoeddus a'r Llwybr Arfordir mae llawer o diroedd gyda mynediad agored a chyfle i wneud amrywiaeth o weithgareddau awyr agored eraill yn cynnwys beicio, marchogaeth ac ymweld â'r traethau.

12.10.2 Oherwydd natur ddaearyddol yr ardal mae llawer o gyfleon hamdden yn gysylltiedig gyda'r môr a'r arfordir. Yn ogystal â gweithgareddau ar y traeth fel chwaraeon, torheulo a physgota gellir mynd ar y môr i rwyfo, hwylio, canŵio, hwylfyrddio neu syrffio. Yn 2015 agorwyd Academi Hwylio Genedlaethol newydd Plas Heli ym Mhwllheli ac mae ystod o weithgareddau ar gael yma. Mae gweithgareddau awyr agored ar y môr a'r tir yn rhai ardrawiad isel ar y cyfan ac mae'n ymddangos fod potensial i ddatblygu rhai gweithgareddau pellach o'r math yma yn Llŷn.

12.10.3 Mae adnoddau hamdden dan do yn bodoli yn yr ardal hefyd. Ymysg y rhain mae plasdy bychan Plas yn Rhiw, Canolfan Iaith a Threftadaeth Nant Gwrtheyrn, Canolfan Hanes Uwchgwyrfai yng Nghlynnog ac Oriel Plas Glyn y Weddw. Yn ddiweddar mae atyniadau dan do newydd wedi agor yn yr ardal gan gynyddu dewis i ymwelwyr yn cynnwys yr Amgueddfa Forwrol a Bragdy Cwrw Llŷn yn Nefyn, Porth y Swnt (Ymddiriedolaeth Genedlaethol) yn Aberdaron, Menter y Felin Uchaf yn Rhoshirwaun a Phlas Heli yn

Mhwllheli.

**<u>Materion Allweddol</u>**

### 12.11 Diffyg cyfleon gwaith amrywiol

12.11.1 Fel y dangoswyd mae'r economi yma yn Llŷn yn eithaf cyfyngedig gyda dibyniaeth ar y diwydiannau traddodiadol – amaethu, pysgota a choedwigaeth. Credir fod cyfleon ar gyfer sefydlu busnesau newydd i gynhyrchu, prosesu a gwerthu cynnyrch lleol – gwelwyd sawl enghraifft o hyn yn ddiweddar.

12.11.2 Hefyd mae dibyniaeth ar swyddi yn y gwasanaethau cyhoeddus - dysgu, llywodraeth leol, gwasanaethau proffesiynol a'r diwydiant croeso (yn cynnwys siopa, bwytai, tafarnau ayb). Mae toriadau sylweddol wedi bod mewn rhai o'r gwasanaethau yma yn ddiweddar ac mae llai o gyfleon cyflogaeth bellach.

12.11.3 Mae cyfleon mwy amrywiol yn bodoli yn nhrefi Caernarfon, Porthmadog a Bangor gerllaw ond mae cryn daith i'r mannau o Lŷn sydd yn golygu costau ac amser ychwanegol. Nid yw teithio i'r mannau hyn yn opsiwn i rai pobol oherwydd nad oes ganddynt gar neu fod trafnidiaeth gyhoeddus ddim digon effeithiol.

12.11.4 Mae'r we fyd eang wedi creu cyfleon i fusnesau presennol ehangu a busnesau newydd yn lleol. Gellir marchnata trwy'r byd a dydi lleoliad strategol ddim bwysig y dyddiau yma. Oherwydd hyn mae cyfleon pellach i ehangu busnesau presennol a sefydlu busnesau o'r newydd yn yr ardal gan greu gwaith a denu incwm.

### 12.12 Tueddiadau mewn ffermio

12.12.1 Mae'r tueddiad i rai busnesau fferm ehangu ar draul eraill i weld yn parhau a gwelwyd hefyd arbenigo mewn dull penodol o ffermio – boed yn wartheg bîff, defaid neu gynhyrchu llaeth. Yn sgil hynny mae angen am adnoddau newydd ac mae siediau amaethyddol newydd, iardiau a parlyrau godro wedi dod yn gyffredin.

12.12.2 Mae cynlluniau amaeth-amgylcheddol a ddechreuodd gyda'r Cynllun AAA (ESA) wedi bod i fudd i gynnal y diwydiant amaeth yn ogystal â cynnal, cadw ac ail-greu nodweddion hanesyddol a naturiol lleol. Gwelwyd hyn yn parhau gyda chynllun diweddar Glastir a byddai parhad y cynllun hwn o fudd i amgylchedd naturiol yr AHNE a thu hwnt.

12.12.3 Mae cyfleon i hybu mwy ar gynnyrch lleol – i'w brosesu a'i ddefnyddio yn lleol er mwyn ychwanegu gwerth at y cynnyrch a chreu gwaith yn lleol. Mae angen cefnogi cwmnïau lleol i farchnata eu cynnyrch a rhoi pwyslais ar annog pobol i brynu cynnyrch lleol. Fe allai defnyddio'r AHNE fel rhan o'r brandio cynnyrch fod o fudd a rhoi cymorth i gwmnïau lleol farchnata eu cynnyrch a rhoi pwyslais ar brynu cynnyrch

lleol. Credir hefyd fod angen hybu ac annog arall gyfeirio at entrepreneuriaeth o ran busnesau presennol a rhai newydd.

**12.13 Band llydan a gwasanaeth ffôn symudol**

12.13.1 Bellach mae gwasanaeth band-llydan da a dibynadwy yn bwysig iawn ir rhan fwyaf o fusnesau, yn ogystal â gwasanaeth ffôn symudol. Fel sydd i ddisgwyl mewn lleoliad gwledig, ar hyn o bryd mae'r gwasanaeth band-llydan yn is-safonol mewn rhai ardaloedd. Hefyd, oherwydd natur arfordirol a bryniog yr ardal mae'r gwasanaeth ffôn symudol yn wael mewn rhai ardaloedd.

12.13.2 Mae Llywodraeth Cymru yn ymroddedig i sicrhau fod gan bawb fynediad at fand-llydan arbennig o gyflym. Mae prosiect Superfast Cymru yn mynd i ddod â'r gwasanaeth hwn i'r rhan fwyaf o gartrefi a busnesau yn Nghymru sydd ddim yn derbyn y gwasanaeth gan y sector breifat. Mae'r arian yn dod gan Llywodraeth Cymru a'r DU, yr UE a Telecom Prydain. Hefyd mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio gyda Airband i ddod a band-llydan di-wifren uwch gyflymder i fannau eraill fydd ddim yn rhan o'r ddarpariaeth masnachol na Superfast Cymru. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru yn edrych ar dechnolegau eraill i rai mannau eraill sydd heb wasanaeth.

**12.14 Toriadau mewn gwariant cyhoeddus**

12.14.1 Gwelwyd toriadau sylweddol mewn gwasanaethau cyhoeddus yn y blynyddoedd diweddar. Mae hyn wedi cael effaith sylweddol ar Gyngor Gwynedd, Cyfoeth Naturiol Cymru ayb gan olygu llai o arian ar gyfer gwaith cyfalaf a swyddi yn ymwneud gyda chadwraeth cefn gwlad a bywyd gwyllt. Dyma rai enghreifftiau fydd yn cael effaith uniongyrchol ar y diwydiant twristiaeth :

- cau canolfannau twristiaeth, yn cynnwys yr un ym Mhwllheli
- llai o wariant ar ddeunydd marchnata twristiaeth e.e. taflenni ayb
- cau toiledau cyhoeddus

12.14.2 Mae hefyd wedi golygu llai o gyfleon gwaith yn lleol a llai o waith i gontractwyr. Efallai fod cyfle i fentrau cydweithredol ddarparu rhai gwasanaethau a chyfleusterau a gollwyd a chreu swyddi.

**12.15 Brexit a'r Undeb Ewropeaidd**

12.15.1 Mae'r Prydain wedi bod yn aelod o'r Gymuned Ewropeaidd ers 1973. Mae canlyniad y refferendwm i adael yr Undeb Ewropeaidd yn Mehefin 2016 wedi creu ansicrwydd mawr o ran yr economi, amgylchedd a symudiadau pobol trwy'r Ewrop. Pan yn adolygu'r Cynllun Rheoli nid oedd yn bosibl rhagweld beth fyddai effaith Brexit ar yr ardal hon ond mae pryderon yn bodoli am yr effaith economaidd yn sgil:

- Gostyngiad yng ngwerth y bunt yn erbyn yr ewro
- Grantiau i amaethyddiaeth a busnesau eraill trwy'r Cynllun Datblygu Gwledig
- Colli mynediad at gronfeydd grant Ewropeaidd e.e. Interreg
- Dyfodol Rheoliadau a Dynodiadau Cadwriaethol Ewropeaidd.

## 12.16 Twristiaeth

12.16.1 Mae'r diwydiant twristiaeth yn dod a chyfran sylweddol o incwm i'r ardal ac yn fanteisiol i nifer o fusnesau ac atyniadau. Mae mannau gwerthu bwyd a diod yn gwneud yn dda yn ystod y cyfnodau gwyliau yn ogystal â siopa a'r siopa bwyd mawr ym Mhwllheli. Mae atyniadau lleol hefyd yn elwa, yn cynnwys eiddo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Yr Amgueddfa Forwrol, Oriel Plas Glyn y Weddw a nifer o rai eraill.

12.16.2 O ran llety gwyliau gwelwyd newid o lety gwasanaethol, fel gwestai, tai aros a gwely a brecwast i lety hunan-wasanaeth a charafanau. Er fod y math yma o lety yn creu gwaith o ran cynnal a chadw, garddio ayb mae llai o gyfleon cyflogaeth cyffredinol yn gysylltiedig ag o. Mewn gwirionedd mae'r nifer o swyddi sy'n gysylltiedig â'r diwydiant twristiaeth yn yr ardal yn weddol isel, mae llawer yn rhai tymhorol ac mae cyflogau yn isel. Mae llawer o swyddi yn caei eu gwneud gan blant ysgol a myfyrwyr.

12.16.3 Mae rhai sgil effeithiau negyddol eraill o'r diwydiant ymwelwyr. Mae rhannau eraill o'r Cynllun yn deilio gyda materion fel erydiad, sbwriel, traffig, tai gwyliau a charafanau.

### <u>Polisïau</u>

**GP 1. HYRWYDDO'R DIWYDIANT FFERMIO TRWY FENTRAU MARCHNATA, MEITHRIN SGILIAU GWLEDIG TRADDODIADOL A CYNLLUNIAU AMAETH-AMGYLCHEDD.**

Mae amaethyddiaeth yn chwarae rhan greiddiol yn amgylchedd ac economi o Benrhyn Llŷn a'r AHNE. Gwelir olion amaethu o ddyddiau cynnar yr y tirlun ac mae datblygiadau a dulliau amaethu dros amser wedi dylanwadu ar gymeriad presennol i'r tirlun. Mae'r gymuned amaethyddol – y ffermwyr a'u teuluoedd a'r gweithwyr hefyd yn chwarae rhan bwysig yng nghymunedau yr ardal ac yn fodd i gynnal traddodiad, sgiliau, arferion, diwylliant ac iaith.

Mae llawer o newidiadau wedi bod mewn amaethu yn ddiweddar – newid polisïau, peiriannau, marchnadoedd a rheoliadau amgylcheddol. Ond mae mwy o newidiadau i ddod yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd sydd yn un o'r marchnadoedd pwysicaf i'r diwydiant ar hyn o bryd.

Mae'r Cynllun hwn yn anelu i gefnogi'r diwydiant amaeth trwy helpu i farchnata cynnyrch amaethyddol a chynnal a datblygu sgiliau traddodiadol fel codi waliau.

**GP 2. SICRHAU FOD DATBLYGIADAU YNGHLWM Â'R DIWYDIANT AMAETHYDDOL YN CAEL YR EFFAITH LEIAF BOSIB AR DIRLUN AG AMGYLCHEDD YR AHNE.**

Fel diwydiannau eraill mae amaethyddiaeth yn gorfod newid ac addasu ac bydd hyn yn golygu angen am siediau newydd, storfeydd slyri, pitiau silwair ayb. Beth sy'n bwysig yw ceisio sicrhau nad yw'r datblygiadau hyn yn cael eu gwneud ar draul edrychiad yr tirlun ac amgylchedd yr ardal. Yn hyn o beth mae lleoli gofalus (ger adeiladau eraill os bosib), dyluniad, lliwiau a thirlunio yn medru cynorthwyo yn achos datblygiadau newydd. Anelir felly i reoli datblygiadau er cyfyngu ar effeithiau amgylcheddol trwy'r drefn gynllunio a thrwy baratoi Canllaw Dylunio penodol.

**GP 3. CEFNOGI Y DIWYDIANT PYSGOTA YN LLŶN TRWY HYRWYDDO MENTRAU PROSESU LLEOL A MARCHNATA.**

Erbyn hyn dim ond ychydig o unigolion sy'n gwneud bywoliaeth lawn amser o bysgota ond mae'r diwydiant yn parhau i fod yn bwysig yn lleol ac yn cynnal traddodiad sy'n ymestyn yn ôl dros ganrifoedd. Beth sydd yn amlwg yw nad oes llawer o'r cynnyrch yn cael ei werthu a'i ddefnyddio yn lleol. Credir fod cyfleon i wneud mwy o farchnata a phrosesu cynnyrch morol lleol ac i gael mwy o fusnesau lleol fel gwestai a bwytai i'w ddefnyddio yn ogystal â gwerthu yn uniongyrchol mewn marchnadoedd lleol.

**GP 4. HYRWYDDO CYNHYRCHION PRIMAIDD LLEOL ERAILL.**

Er fod pwyslais ar gynnyrch amaethyddol a morol yn yr ardal mae pethau amrywiol eraill yn cael eu cynhyrchu yma hefyd. Er ddim yn amlwg mae dwy chwarel ithfaen yn dal yn agored a'u cynnyrch yn ddefnyddiol i adeiladu ac fel seiliau i ffyrdd ayb. Mae menter coedwigaeth yn Glasfryn ac ambell un llai mewn mannau eraill.

**GP 5. HYRWYDDO GWELLIANT MEWN GWASANAETH BAND LLYDAN A FFONAU SYMUDOL YN YR ARDAL LLE NA FYDDAI HYNNY YN CAEL EFFAITH ANNERBYNIOL AR DIRLUN YR AHNE.**

Y dyddiau hyn mae cadw mewn cysylltiad a marchnata yn holl bwysig i fusnesau o bob math. Oherwydd ei natur wledig ag arfordirol mae cysylltiadau band llydan a ffonau symudol yn wael mewn rhai mannau ac mae hynny yn anfanteisiol. Bwriedir felly cefnogi gwelliannau lle na fyddai hynny yn cael effaith negyddol ar dirlun yr AHNE ac annog rhannu mastiau.

**GP 6. HYRWYDDO A CHYNORTHWYO MENTRAU CYDWEITHREDOL FEL DULL O REDEG BUSNESAU A CHYNNAL SWYDDI YN LLEOL.**

Mae rhai mentrau cydweithredol yn bodoli yn yr ardal yn barod fel Tafarn y Fic, Siop y Groes a Hufenfa De Arfon. Mewn ardal wledig fel Llŷn credir fod potensial i ehangu hyn a sefydlu mentrau newydd er mwyn cynnal busnesau a gwasanaethau ac felly yn cynnal swyddi hefyd.

**GP 7. CEFNOGI MENTRAU GWLEDIG NEWYDD A MENTRAU ARALLGYFEIRIO AR YR AMOD NA FYDDENT YN RHOI PWYSEDD ANNERBYNIOL AR AMGYLCHEDD YR AHNE.**

Yn ddiweddar gwelwyd sefydlu nifer o fusnesau newydd fel Cwrw Llŷn, Glasu a Llaethdy Llŷn. Mae busnesau newydd cynhenid fel hyn yn hynod bwysig oherwydd yr incwm y maent yn ei greu a'r cyfleon cyflogaeth a darperir. Gyda phartneriaid felly anelir i gynorthwyo busnesau presennol a hyrwyddo sefydlu mentrau eraill tebyg.

**GP 8. ANNOG BUSNESAU, YN CYNNWYS RHAI YN Y SECTOR DWRISTIAETH, I FOD YN FWY CYNALIADWY O RAN DEFNYDDIO YNNI AC AILGYLCHU.**

Mae cynnal a gwarchod yr amgylchedd naturiol yn un o brif amcanion y Cynllun Rheoli ac felly rhoddir pwyslais ar leihau sgil-effeithiau busnesau ar yr amgylchedd. Bydd y Gwasanaeth AHNE a sefydliadau eraill yn cydweithio i godi ymwybyddiaeth am ddulliau arbed ynni ac ynni adnewyddol cydnaws â'r AHNE.

**GP 9. CEFNOGI DATBLYGIADAU HAMDDEN AWYR AGORED NEWYDD AR YR AMOD NA FYDDENT YN RHOI PWYSEDD ANNERBYNIOL AR ADNODDAU NATURIOL.**

Mae gweithgareddau awyr agored mewn bri ar hyn o bryd ac mae llawer o adnoddau naturiol ar gyfer y math hynny o hamdden yn Llŷn. Mae'n ymddangos fod cyfleon i ddatblygu y math yma o weithgaredd hamdden ymhellach, gan elwa o'r diwydiant a chreu cyfleon gwaith yn lleol. Mae'n bwysig sicrhau na fydd mentrau yn amharu ar y rhinweddau fodd bynnag a bydd mentrau yn cael eu hasesu a dim ond y rhai addas a gefnogir.

**GP 10. HYRWYDDO MENTRAU TWRISTIAETH PRESENNOL A NEWYDD, YN ENWEDIG RHAI SY'N SEILIEDIG AR HANES A DIWYLLIANT LLEOL, AR YR AMOD NA FYDDENT YN RHOI PWYSEDD ANNERBYNIOL AR AMGYLCHEDD YR AHNE.**

Mae'r diwydiant ymwelwyr yn dod a budd economaidd sylweddol i ardal Llŷn yn darparu swyddi ac chreu incwm i gynnal gwasanaethau a busnesau lleol. Gall rhai datblygiadau newydd addas ychwanegu at yr ystod o weithgareddau i ymwelwyr yn ogystal â phobol leol. Felly bydd cefnogaeth i weithgareddau presennol a newydd, sy'n gydnaws â rhinweddau arbennig yr ardal, yn enwedig mentrau sy'n gysylltiedig â hanes a diwylliant lleol.